# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Tachwedd 2018

Amser: 14.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6362

SeneddMCD@cynulliad.cymru

## - Eitem 4,.2

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

**4.2 Llythyr gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol: Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)**

(Tudalennau 1 - 14)

**CLA(5)-28-18 - Papur 11** - Llythyr gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol

**CLA(5)-28-18 - Papur 11** - Atodiad

**Dogfennau atodol:**

CLA(5)-28-18 - Papur 11

CLA(5)-28-18 - Atodiad

**Huw Irranca-Davies AC/AM**
**Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children, Older People and Social Care**

Eitem 4.2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: HID-0676-18

Lynne Neagle AC
Y Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Mick Antoniw AC
Y Cadeirydd, Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

5 Tachwedd 2018

Annwyl Lynne a Mick,

**Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)**

Yn f'ymateb i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn dilyn cyfnod 1 o'r broses graffu ar Fil Cyllido Gofal Plant (Cymru), roeddwn wedi amlinellu fy mwriad i rannu gyda chi fframwaith drafft cychwynnol o'r cynllun gweinyddol cyn cyfnod 3.

Mae'r fframwaith drafft wedi ei atodi i'r Pwyllgor gael ei ystyried; mae'r gwaith arno'n dal i fynd rhagddo. Fel y dywedais o'r blaen, byddem yn croesawu'r cyfle i ddychwelyd gerbron y Pwyllgor yn y gwanwyn i drafod y cynllun yn fanylach.

Yn ystod sesiwn Cyfnod 2 y Pwyllgor ar 18 Hydref 2018, addewais y byddwn yn edrych ar ffyrdd y gallem sicrhau tryloywder llawn o ran y gyfradd a delir fesul awr i ddarparwyr gofal plant sy'n darparu'r Cynnig Gofal Plant. Roedd hyn yn ymateb yn rhannol i welliant 32 a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AC.

Ar ôl meddwl mwy am hyn, rwyf wedi dod i'r casgliad mai'r ffordd orau gen i fyddai cynnwys gwybodaeth am y gyfradd fesul awr yn y cynllun gweinyddol, a fydd, wrth gwrs, yn cael ei gyhoeddi a'i adolygu fel y bo'n briodol. Gobeithio bod hyn yn rhoi tawelwch meddwl i'r Pwyllgor o ran bwriad y Llywodraeth i gyhoeddi manylion ynghylch y gyfradd fesul awr

Yn gywir

**Huw Irranca-Davies AC/AM**
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children, Older People and Social Care

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# DRAFFT: Cynllun Cyllido Gofal Plant (Cymru) 20**XX**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Cynllun)*

Mae Gweinidogion Cymru yn ymrwymedig i ddarparu hyd at 30 o oriau cyfunol o addysg gynnar (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel darpariaeth feithrin y cyfnod sylfaen ("DFCS")) a gofal plant a gyllidir gan y llywodraeth ar gyfer plant cymhwysol rhieni sy'n gweithio am hyd at 48 o wythnosau y flwyddyn ("y Cynnig").

Mae gan bob plentyn yng Nghymru hawlogaeth i gael addysg gynnar drwy DFCS cyn iddynt ddechrau addysg orfodol. Nid yw'n ofynnol i rieni dderbyn unrhyw un neu bob un o'r oriau o DFCS a gynigir i'w plentyn. Mae Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig o leiaf 10 awr o DFCS; fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol yn darparu oriau ychwanegol.

Bydd y Cynnig yn darparu hawlogaeth ychwanegol i ddarpariaeth gofal plant a gyllidir ar gyfer plant cymhwysol rhieni sy'n gweithio. Bydd nifer yr oriau o DFCS y mae gan blentyn hawlogaeth iddynt yn rhan o'r 30 o oriau o addysg gynnar a gofal plant y cyfeirir atynt yn y Cynnig. Ystyrir yr hawlogaeth hon pa un a

DRAFFT

yw rhiant yn dewis peidio â manteisio ar unrhyw un neu bob un o'r oriau o DFCS y mae gan ei blentyn hawlogaeth iddynt.

Mae Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 201**x** ("y Ddeddf") yn gwneud darpariaeth ynghylch cyllido gofal plant gan Weinidogion Cymru ar gyfer plant cymhwysol rhieni sy'n gweithio.

Mae Rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 1 a 2 o'r Ddeddf ("y Rheoliadau") yn diffinio pwy sy'n blentyn cymhwysol i rieni sy'n gweithio, ac yn nodi'r amodau y mae rhaid i riant (neu bartner i riant) eu bodloni er mwyn bod yn gymwys i gael gofal plant a gyllidir.

Mae'r Rheoliadau o dan adrannau 1 a 2 o'r Ddeddf hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch y broses gwneud cais a sut y caiff person sy'n cyflwyno cais geisio adolygiad o benderfyniad ar ei gymhwystra i gael gofal plant a gyllidir neu geisio apêl mewn cysylltiad â'r penderfyniad hwnnw. Maent hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch cosbau ar gyfer gwybodaeth neu weithredoedd anghywir, anwir neu gamarweiniol a wneir mewn cysylltiad â chais person am ofal plant a gyllidir.

Mae'r Cynllun hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer y trefniadau gweinyddol sy'n ofynnol i gyflenwi'r Cynnig.

DRAFFT

Mae Rhan [*2*] yn pennu faint o ofal plant y mae gan riant cymwys i blentyn cymhwysol hawlogaeth iddo ac yn manylu ar y cyfnod pan fydd gofal plant a gyllidir ar gael.

Mae Rhan [*3*] yn egluro bod rhaid gwneud cais am ofal plant a gyllidir yn unol â'r Rheoliadau.

Mae Rhan [*4*] yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfnod para hawlogaeth i ofal plant a gyllidir.

Mae Rhan [*5*] yn gwneud darpariaeth ynghylch pwy a gaiff gyflenwi gofal plant a gyllidir.

*Rhan [6] [Proses - taith y rhiant ar ôl cael penderfyniad cadarnhaol ar gymhwystra]*

*Mae Rhan [7] yn gwneud darpariaeth ynghylch y rhyngwyneb rhwng [yr awdurdod talu] a darparwyr gofal plant a'r broses ar gyfer talu darparwyr.*

Mae Rhan [*8*] yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfraddau talu i ddarparwyr gofal plant ac yn nodi gofynion mewn cysylltiad â ffioedd ychwanegol.

DRAFFT

# DRAFFT: Cynllun Cyllido Gofal Plant (Cymru) 20**XX**

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.** Enw’r Cynllun hwn yw Cynllun Cyllido Gofal Plant (Cymru) 20**xx**.

**2.** Daw’r Cynllun hwn i rym ar XXX ac mae’n gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**3.** Yn y Cynllun hwn—

ystyr “amser tymor” (“*term time*”) yw’r amser tymor ysgol sy’n gymwys ar gyfer y plentyn cymhwysol o dan sylw;

ystyr “awdurdod lleol” (“*local authority*”) yw awdurdod lleol yng Nghymru;

mae i “DFCS” (“*FPN*”) yr ystyr a roddir ym mharagraff [*6*];

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 20**xx**;

ystyr “plentyn cymhwysol” (“*qualifying child*”) yw plentyn—

(a) sy’n dod o fewn y disgrifiad a bennir yn (rheoliad ( )) o’r Rheoliadau,

DRAFFT

(b) y mae ei riant yn bodloni'r amodau a bennir yn (rheoliad ( )) o'r Rheoliadau,

(c) y mae rhiant y plentyn wedi gwneud datganiad mewn cysylltiad ag ef yn unol â (rheoliad ( )) o'r Rheoliadau;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw'r [Rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adrannau 1 a 2 o'r Ddeddf];

ystyr "rhiant sy'n gweithio" ("*working parent*") yw person sydd wedi cael penderfyniad bod y meini prawf a bennir yn neu yn rhinwedd [adran 1(2)(a), (b) ac (c)] o'r Ddeddf wedi eu bodloni [ar gyfer y cyfnod a bennir yn y penderfyniad] mewn perthynas â'r plentyn y gwnaed y datganiad mewn cysylltiad ag ef.

DRAFFT

**Diwygio**

**4.** Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio neu ddirymu'r darpariaethau a nodir yn y Cynllun hwn neu ychwanegu atynt ar unrhyw adeg.

## RHAN 2

## Y cynnig gofal plant

**Y cynnig gofal plant**

**5.** Bydd Gweinidogion Cymru yn darparu hyd at 30 o oriau o DFCS a gofal plant ar gyfer plant cymhwysol rhieni sy'n gweithio.

**Addysg gynnar**

**6.** Ystyr "DFCS" yw addysg feithrin (o fewn yr ystyr a roddir i "nursery education" yn adran 117 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998")) y mae awdurdod lleol o dan ddyletswydd i sicrhau darpariaeth ddigonol ohoni yn rhinwedd adran 118 o Ddeddf 1998 a rheoliad 4 o Reoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (Cymru) 2003(**1**).

**7.** Yn unol â'r darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff [*6*], mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gynnig o leiaf 10 awr o DFCS ar gyfer pob plentyn o ddechrau'r tymor ysgol ar ôl ei ben-blwydd yn 3 oed hyd nes bod plentyn yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol(**2**) neu'n cael cynnig lle llawnamser yn yr ysgol, pa un bynnag yw'r cynharaf.

**8.** Caiff awdurdod lleol ddarparu mwy na 10 awr o DFCS yn ôl ei ddisgresiwn. Bydd yr awdurdod lleol y mae plentyn yn preswylio ynddo yn hysbysu rhiant am union nifer yr oriau o DFCS y mae gan y plentyn hawlogaeth iddynt.

**9.** Nid yw'n ofynnol i riant sy'n gweithio fanteisio ar bob un neu unrhyw un o'r oriau o DFCS a gynigir gan awdurdod lleol i'w blentyn er mwyn cael elfen gofal plant y Cynnig.

**10.** Oni bai bod paragraff [*11*] yn gymwys, wrth gyfrifo nifer yr oriau o ofal plant a gyllidir y mae gan blentyn cymhwysol hawlogaeth iddynt, ystyrir pob un o'r oriau o DFCS y mae gan blentyn hawlogaeth iddynt (pa un a ydynt yn cael eu defnyddio'n llawn neu o gwbl).

**11.** Mae'r paragraff hwn yn gymwys os yw plentyn yn cael DFCS mewn ardal awdurdod lleol wahanol i'r un y mae'n byw ynddi.

**12.** Os yw paragraff [*11*] yn gymwys, bydd nifer yr oriau o ofal plant a gyllidir y mae gan y plentyn

---

(**1**) Yn unol â'r darpariaethau hyn, rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddarparu DFCS ran-amser yn rhad ac am ddim ar gyfer plant sydd wedi cyrraedd o leiaf eu pen-blwydd yn 3 oed yn unol â'r gofynion a nodir yn y Canllawiau Statudol a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 118 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. *Gweler* Darpariaeth Gyfnod Sylfaen ar gyfer plant tair a phedair oed: Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru (Dogfen ganllawiau 233/2018) a ddyroddwyd ym mis Medi 2018.

(**2**) Diffinnir "oedran ysgol gorfodol" yn unol ag adran 8 o Ddeddf Addysg 1996 a Gorchymyn Addysg (Dechrau Oedran Ysgol Gorfodol) 1998 (O.S. 1998/1607). Mae plentyn yn dechrau bod o ysgol oedran gorfodol pan fydd y plentyn yn cyrraedd 5 oed pan fydd y plentyn yn cyrraedd yr oedran hwnnw ar "diwrnod rhagnodedig" (naill ai 31 Awst, 31 Rhagfyr neu 31 Mawrth), neu fel arall ar ddechrau'r diwrnod rhagnodedig nesaf ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 5 oed.



DRAFT

cymhwysol hawlogaeth iddynt yn cael ei gyfrifo yn unol â nifer yr oriau o DFCS y mae'r plentyn yn eu cael mewn gwirionedd (ac nid nifer yr oriau y mae gan y plentyn hawlogaeth iddynt).

**Gofal plant**

**13.** Ystyr "gofal plant" yw gofal [neu weithgaredd arall a oruchwylir] ar gyfer plentyn y mae'n ofynnol i'r darparwr fod wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag ef o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 neu o dan Ran 3 o Ddeddf Gofal Plant 2006, ac ystyr "gofal plant a gyllidir" yw unrhyw ofal plant a gyflenwir o dan y Cynnig.

**30 o oriau – darpariaeth amser tymor**

**14.** Yn ystod pob un o'r 39 o wythnosau o amser tymor(**1**), mae nifer yr oriau o DFCS y mae gan blentyn cymhwysol hawlogaeth iddynt yn rhan o'r 30 o oriau y cyfeirir atynt ym mharagraff [ ].

**15.** Nifer yr oriau o ofal plant a gyllidir y mae gan blentyn cymhwysol hawlogaeth iddynt yn ystod amser tymor yw'r cydbwysedd rhwng nifer yr oriau o DFCS a gynigir i'r plentyn a 30 o oriau.

**16.** Os yw rhiant sy'n gweithio yn dewis peidio â manteisio ar unrhyw un neu bob un o'r oriau o DFCS a gynigir i blentyn, nid yw hyn yn effeithio ar y cyfrifo o dan baragraff [*15*].

**17.** Ni chaiff rhiant sy'n gweithio gyfnewid unrhyw un neu bob un o'r oriau o DFCS a gynigir i'w blentyn yn oriau o ofal plant a gyllidir o dan y Cynnig.

**18.** Nid yw'n ofynnol i riant sy'n gweithio fanteisio ar unrhyw un neu bob un o'r oriau o ofal plant a gyllidir a gynigir i'w blentyn cymhwysol. Caiff rhiant sy'n gweithio fanteisio ar unrhyw nifer o'r oriau a gynigir.

**19.** Caiff rhiant sy'n gweithio ddewis defnyddio ei hawlogaeth i ofal plant a gyllidir yn hyblyg ond ni chaniateir i nifer cyfunol yr oriau o ofal plant a gyllidir a DFCS fod yn fwy na 30 mewn unrhyw wythnos o ddarpariaeth amser tymor.

**20.**

**21.**[Bydd y Rhan hon yn cynnwys darpariaeth sy'n cyfeirio at:

---

(**1**) At ddiben y Cynnig, amser tymor ysgol yw 39 o wythnosau o'r flwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar y 195 o ddiwrnodau y flwyddyn y mae'n ofynnol i athrawon fod ar gael i weithio neu i gael hyfforddiant. Awdurdodau lleol sy'n pennu union ddyddiadau tymor ysgol a chaniateir iddynt amrywio rhwng awdurdodau.



DRAFFT

**22.** Hawlogaeth yn ystod diwrnodau HMS]

**30 o oriau – darpariaeth adeg gwyliau**

**23.** Uchafswm nifer yr wythnosau pan fydd gofal plant a gyllidir ar gael ar ffurf darpariaeth adeg gwyliau yw 9 wythnos.

**24.** Cyfrifir hawlogaeth i ddarpariaeth adeg gwyliau yn unol â pharagraff [*31*].

**25.** Caiff rhiant sy'n gweithio ddewis hyd at 9 o'r 13 o wythnosau nad ydynt yn amser tymor i ddefnyddio hawlogaeth ei blentyn cymhwysol i ddarpariaeth adeg gwyliau.

**26.** Yn ystod pob un o'r wythnosau o ddarpariaeth adeg gwyliau a nodir gan riant sy'n gweithio, mae gan blentyn cymhwysol hawlogaeth i 30 o oriau o ofal plant(**1**).

**27.** Caiff rhiant sy'n gweithio ddewis defnyddio'r hawlogaeth i ofal plant a gyllidir yn hyblyg ond ni chaniateir i nifer yr oriau o ofal plant a gyllidir fod yn fwy na 30 mewn unrhyw wythnos o ddarpariaeth adeg gwyliau.

# RHAN 3

## Cymhwystra ar gyfer y Cynnig

**Cymhwystra**

**28.** Rhaid gwneud cais am ofal plant a gyllidir yn unol â [rheoliad ( ) / Rhan ( )] o'r Rheoliadau.

**29.** Bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad o ran a yw plentyn yn "plentyn cymhwysol" yn unol â [rheoliad ( ) / Rhan ( )] o'r Rheoliadau.

**30.** Bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad o ran a yw rhiant yn "rhiant sy'n gweithio" yn unol â [rheoliad ( ) / Rhan ( )] o'r Rheoliadau.

**31.** Rhaid gwneud cais am adolygiad o benderfyniad gan Weinidogion Cymru o ran cymhwystra am gyllid ar gyfer gofal plant o dan y Cynnig, neu gais am apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf mewn perthynas â phenderfyniad o'r fath, yn unol â [rheoliad ( ) / Rhan ( )] o'r Rheoliadau.

(**1**) Dim ond yn ystod amser tymor ysgol y cyflenwir addysg gynnar a ddarperir drwy DFCS.

**32.**[Bydd y Rhan hon yn cynnwys darpariaeth sy'n cyfeirio at:

**33.**Gyfnod dilysrwydd y datganiad/penderfyniad

**34.**Yr hyn sy'n digwydd pan na fydd gan rieni gymhwystra mwyach (Darpariaeth Esemptio Dros Dro)]

# RHAN 4

## Argaeledd y Cynnig

### Cyfnod hawlogaeth

**35.** Oni bai bod paragraff [*30*] yn gymwys, caniateir i riant sy'n gweithio gael gofal plant a gyllidir o dechrau'r tymor ysgol ar ôl pen-blwydd ei blentyn cymhwysol yn 3 oed tan pa un bynnag yw'r cynharaf o'r canlynol—

(a) yr adeg y cynigir lle llawnamser mewn addysg i'r plentyn(**1**), neu

(b) dechrau'r mis Medi ar ôl pen-blwydd ei blentyn yn 4 oed.

**36.** Os yw awdurdod lleol yn pennu dyddiad gwahanol erbyn pryd y mae rhaid bod plentyn wedi cyrraedd ei ben-blwydd yn 3 oed er mwyn dechrau cael hawlogaeth i DFCS, caniateir i riant sy'n gweithio gael y gofal plant a gyllidir y mae gan ei blentyn cymhwysol hawlogaeth iddo gan ddechrau ar yr un diwrnod ag y mae hawlogaeth ei blentyn i DFCS yn dechrau.

### Hawlogaeth i ddarpariaeth adeg gwyliau

**37.** Bydd gan blentyn cymhwysol hawlogaeth i 3 wythnos o ddarpariaeth adeg gwyliau ar gyfer pob tymor ysgol y mae'r plentyn yn cael DFCS.

**38.** Rhaid i riant sy'n gweithio nodi unrhyw wythnos pryd y mae'n bwriadu defnyddio hawlogaeth ei blentyn cymhwysol i ddarpariaeth adeg gwyliau yn unol â pharagraff [*19*].

**39.** Caiff rhiant sy'n gweithio gario ymlaen wythnosau nas defnyddiwyd o ddarpariaeth adeg gwyliau a'u defnyddio yn ystod unrhyw wythnos nad

---

(**1**) Y mis Medi ar ôl pen-blwydd plentyn yn 4 oed yw hyn fel arfer. Pan gynigir lle llawnamser mewn addysg i'r plentyn, ni fydd yn cymhwyso i gael y Cynnig mwyach. Ni chaiff rhieni wrthod y cynnig o le llawnamser mewn addysg o blaid parhau i gael y Cynnig.

yw'n amser tymor, ar yr amod bod ei blentyn yn parhau i fod yn blentyn cymhwysol at ddibenion y Cynnig.

**Cynnig cynnar o le llawnamser mewn addysg – darpariaeth adeg gwyliau**

**40.** Pan fo awdurdod lleol yn cynnig lle i blentyn mewn addysg lawnamser yn gynharach na'r amser a bennir ym mharagraff [*29(b)*], bydd gan blentyn hawlogaeth i 3 wythnos o ddarpariaeth adeg gwyliau ar gyfer pob tymor ysgol tan ddechrau'r mis Medi ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 4 oed(**1**).

**41.** Pan fo paragraff [*32*] yn gymwys, bydd gan riant sy'n gweithio hawlogaeth i ddefnyddio unrhyw ddarpariaeth adeg gwyliau y mae gan ei blentyn hawlogaeth iddi yn ystod unrhyw wythnos nad yw'n amser tymor tan ddechrau'r mis Medi ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 4 oed.

## RHAN 5

### Darpariaeth gofal plant

**Darparwyr gofal plant**

**42.** Caniateir i ofal plant a gyllidir gael ei ddarparu gan ddarparwr gofal plant—

(a) sy'n garchodwr plant neu'n ddarparwr gofal dydd sydd wedi ei gofrestru â Gweinidogion Cymru yn unol â Rhan 2 o'r Mesur;

(b) sy'n darparwr blynyddoedd cynnar sydd wedi ei gofrestru â Phrif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau yn unol â Rhan 3 o Ddeddf Gofal Plant 2006.

**43.** Mae cyfeiriad at warchodwr plant ym mharagraff [*36(a)*] yn cynnwys gwarchodwr plant sy'n darparu gofal plant ar gyfer plentyn sy'n berthynas ar yr amod na ddarperir y gofal plant yng nghartref y plentyn.

**44.** Mae rhiant sy'n gweithio yn gyfrifol am wneud trefniadau ag un neu ragor o ddarparwyr gofal plant(**2**)

---

(**1**) Diben hyn yw sicrhau bod cysondeb wrth gyflenwi'r Cynnig ac atal effaith andwyol ar riant sy'n gweithio y cynigir lle llawnamser mewn addysg i'w blentyn yn gynharach na'r hyn sy'n arferol, sef dechrau'r mis Medi ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 4 oed.

(**2**) Er mwyn sicrhau bod gan riant sy'n gweithio hyblygrwydd i fodloni ei amgylchiadau unigol, caiff y rhiant wneud




DRAFFT

i sicrhau y darperir gofal plant a gyllidir ar gyfer ei blentyn cymhwysol.

**45.** Yn y Rhan hon—

mae i "darparwr blynyddoedd cynnar" yr ystyr a roddir i "early years provider" yn adran 96(3) o Ddeddf Gofal Plant 2006;

mae i "gwarchodwr plant" ("*child minder*") a "darparwr gofal dydd" ("*day care provider*") yr ystyr a roddir yn adran 19 o'r Mesur;

ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;

ystyr "perthynas" ("*relative*"), mewn perthynas â phlentyn, yw mam-gu/nain, tad-cu/taid, modryb, ewythr, brawd neu chwaer, pa un ai o waed coch cyfan neu o hanner gwaed neu drwy briodas neu bartneriaeth sifil.

DRAFFT

## *RHAN 6*

## *Proses: Taith y rhiant ar ôl cael penderfyniad cadarnhaol ar gymhwystra*

***Yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â:***

***Digolledu ar gyfer oedi cyn penderfynu ar gais***

***Trefniadau â darparwr gofal plant***

***Trefniadau â darparwyr gofal plant nas cyllidir***

---

trefniadau â mwy nag un darparwr i sicrhau gofal plant a gyllidir ar gyfer yr un plentyn cymhwysol.

## *RHAN 7*

### *Y rhyngwyneb rhwng [yr awdurdod gweinyddu] a darparwyr*

***Cofrestru darparwyr***

***Cytundeb darparwyr***

***Proses ar gyfer taliadau***

***Casglu data***

***Cod ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi***

## RHAN 8

### Taliadau

DRAFFT

**Cyfradd talu**

**46.** Telir darparwyr gofal plant sy'n darparu gofal plant a gyllidir yn ôl y gyfradd genedlaethol o [*£4.50*] yr awr.

**47.** Dim ond cost darparu gofal plant a gyllidir y mae'r gyfradd genedlaethol yn ei chwmpasu.

**48.** Ni chaiff darparwyr gofal plant osod unrhyw ffi ychwanegol am ddarparu gofal plant a gyllidir.

**Ffioedd ychwanegol**

**49.** Caiff darparwyr gofal plant sy'n darparu gofal plant a gyllidir osod ffi am elfennau ychwanegol sy'n ategol at ddarparu gofal plant a gyllidir megis bwyd, diod, cludiant ac unrhyw weithgaredd oddi ar y safle sy'n peri cost.

**50.** Rhaid i unrhyw ffioedd ychwanegol a osodir gan ddarparwr gofal plant yn unol â pharagraff [*42*] ystyried canllawiau Gweinidogion Cymru [*angen cyfeirio at enw'r ddogfen, dyddiad cyhoeddi a manylion ynghylch ble y gellir cael copïau yn electronig neu fel arall*].

**51.** Mae rhiant sy'n gweithio yn gyfrifol am unrhyw ffioedd ychwanegol a osodir gan y darparwr gofal plant yn unol â pharagraff [*43*].

**52.**

**53.**

DRAFFT